I S - D D E D D F W R I A E T H
C Y M R U

NOSC 2026 Rhif 93

TRAFFIG FFYRDD

Gorchymyn Cefnffordd yr A479 (Parc Glan-wysg i Fronllys, Powys) (Gwahardd Traffig Dros Dro) 2026

Gwnaed	*21 Mai 2026*
Yn dod i rym	*1 Mehefin 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A479, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A479 (Parc Glan-wysg i Fronllys, Powys) (Gwahardd Traffig Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mehefin 2026.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 1 Mehefin 2026 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

W E L S H S U B O R D I N A T E
L E G I S L A T I O N

NWSI 2026 No. 93

ROAD TRAFFIC

The A479 Trunk Road (Glanusk Park to Bronllys, Powys) (Temporary Prohibition of Traffic) Order 2026

Made	*21 May 2026*
Coming into force	*1 June 2026*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A479 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A479 Trunk Road (Glanusk Park to Bronllys, Powys) (Temporary Prohibition of Traffic) Order 2026 and this Order comes into force on 1 June 2026.

Interpretation

2. In this Order—

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the length of the A479 Glanusk Park to Llyswen trunk road that extends from the centre-point of its junction with the A40 trunk road at Glanusk Park to the roundabout junction with the A438 at Bronllys, Powys;

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw darn o gefnffordd yr A479 Parc Glan-wysg i Lyswen sy’n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â chefnffordd yr A40 ym Mharc Glan-wysg hyd at y gyffordd gylchfan â’r A438 ym Mronllys.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff unrhyw farchogwr, yn ystod cyfnod y gwaith, fynd ar hyd o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, caniatáu i unrhyw da byw fynd ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

8. Nid yw’r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Trafnidiaeth, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Mai 2026

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 1 June 2026 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order.

6. No equestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order.

7. No person may, during the works period, permit any livestock to proceed on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order.

Application

8. The prohibitions in articles 3, 4, 5, 6 and 7 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

9. The maximum duration of this Order is 6 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Transport, acting under the authority of the Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy, one of the Welsh Ministers.

Dated 21 May 2026

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government